YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1902. [CYF. II. RHIF 9.

NODION Y MIS.

TYSTIOLAETH un o *Journalists* enwocaf y Deheudir, a ddeil swydd bwysig mewn cysylltiad ag un o bapyrau dyddiol Caerdydd, yw, mai YR YMOFYNYDD, yn ddiamheu, yw y goreu o'r misolion Cymreig. Dywedai Methodist, o Benygraig, Cwm Rhondda, yn ddiweddar, mai dim ond dau Fisolyn Cymreig a gyhoeddid oeddent yn fwy o werth na'r pris a godid am danynt, a'r ddau hyny oedd *Trysorfa'r Plant* a'r YMOFYNYDD. Yr ydym yn clywed yr un 'stori o lawer o fanau. Ac yn awr pan mae y *Postal Mission* Cymreig ar fin cael ei gychwyn, beth pe byddai rhai o'n pobl gyfoethog (ac mae gyda ni lawer o honynt yn Ngheredigion a Morganwg) yn gosod eu dwylaw yn eu llogellau, dipyn yn ddyfnach nag arfer, ac yn helpu y Gymdeithas i wasgar YR YMOFYNYDD dros hyd a lled y Dywysogaeth. Dyma waith cenhadol allwn i wneud, a'i wneud i bwrpas ond i ni dreio.

Mae y Diafol wedi marw yn y diwedd. Y Parch. D. Stanley Jones, olynydd Dr. Herber Evans, Caernarfon, sydd yn dweyd hyny yn *Y Geninen* am Ebrill:—"Na! mae Cymru wedi deffro i angenion newydd, ac amgylchynir ei bywyd goreu gan elynion na freuddwydiodd yr hen bobl erioed am eu bodolaeth. Nis gwyddom fawr am y pechod gwreiddiol y soniai y tadau gymaint am dano, ond credwn fod anwybodaeth, llygredd, meddwdod, difrawder, ac ariangarwch y dyddiau hyn yn ffeithiau mwy byw na'r un anfantais a ddaeth trwy Adda erioed. Felly ni ddylem wario ein nerth i ymladd *a'r hen Satan sydd wedi marw.* * * * * * Dywed yr oes hon wrth eu barweinwyr fel y dywedodd meibion y prophwydi wrth Eliseus: 'Wele y lle hwn yr ydym yn trigo ynddo ger dy fron di sydd yn rhy gyfyng i ni': rhaid i ni gael mwy o le mewn credo ac ymarferiad," &c. Darllener yr holl erthygl ar "*Y Pregethwr Newydd*" a cheir gweled yn amlwg fod ryw ysprydiaeth newydd yn codi ei ben yn mhwlpudau

Cymru. Cafodd Mr. Jones ei eni a'i fagu yn nghymydogaeth Talgareg. A ydyw yn bosibl fod llais mwynaidd Gwilym Marles o bwlpud Capel llwydaidd Bwlchyfadfa wedi tyneru yr awelon duwinyddol a chwythent oddiamgylch ei gryd?

Yn ei anerchiad ymadawol, yn nghymdeithasfa Corris, yn ddiweddar, dywedodd y Parch. Evan Roberts, y Cyn-lywydd. y geiriau canlynol:—"Mae pawb *Cristionogion* yn proffesu bod yn ysgrythyrol, yn Babyddion, a Phrotestaniaid, yn Drindodwyr ac *Undodwyr*, yn Arminiaid a Chalfiniaid." Yr ydym wedi gosod y ddau air pwysig mewn llythyrenau italaidd. Undodwyr yn Gristionogion! Diolchwn am yr addefiad sydd wedi ei wneud mewn swydd ac mewn cylch gymaint allan o gydymdeimlad ag Undodiaeth. Diolchwn yn neillduol hefyd yn wyneb y sylw a wnaed gan un o brif weinidogion y Methodistiaid yn y Deheudir pan y gadawodd cyfaill o Fethodist iddo eglwys ei dadau ac y trodd ei wyneb at yr Undodiaid:—"Wel, wel, mae hwn a hwn yn myn'd yn *straight* i uffern a'i lygaid yn agored." Gadawn ni i'r ddau frawd benderfynu y cwestiwn rhyngddynt â'u gilydd. Mae'r Undodwr wedi dysgu trwy hir brofiad, a llawer o hono yn ddigon chwerw, i fyn'd ar ei ffordd ei hun heb ofalu am wg na gwên neb.

"Yn ol at Grist." Dyma gri gyffredinol yr oes hon yn nghanol yr holl ddadwrdd eglwysig o'n hamgylch. Ac er mwyn cael gafael ar y gwir Grist, rhaid i ni, fel y dywed Harnack, gyfyngu ein hunain i'r tair Efengyl gyntaf, a gadael Paul ac ysgrifenwyr ereill yn llonydd. Maent hwy wedi dwyn elfenau dieithr i fewn na wnânt ddim ond tywyllu ein syniad am y gwir Grist. Yr oeddem wedi arfer meddwl fod barddoniaeth Gymreig, yn neillduol yn y mesurau caethion, yn symud yn araf iawn, ac y cymerai flynyddoedd lawer i gymhwyso ei hun at y wybodaeth newydd am Grist. Yr oedd yn syndod i mi i glywed pwy ddydd ddwy linell o waith y Proffeswr Morris Jones, Bangor, yn gosod allan mor gryno ac mor brydferth y gri y cyfeiriwn ati. Dyma hwy:—

> "Mae Paul yn burion athronydd—
> Awn at ffynawn y ffydd."

Tuedd Paul ac Ioan a'i ysgol, fel mae wedi bod yn duedd duwinyddion erioed, yw athronyddu ar bethau mawrion; ac yn fuan iawn mae damcaniaethau yr athronwyr yn dyfod yn fwy pwysig na'r ffeithiau y ceisiant eu hesponio. Mae Cristyddiaeth (*Christology*) yn cael mwy o sylw na Iesu Grist ei hun.

Bu amser pan y gwaherddid Ymneillduwyr i gadw ysgolion o gwbl yn y wlad hon. Yr oedd hona yn ffordd *straight*, diragrith i ddrygu Ymneillduaeth. Mae y *Bill* Addysg presenol yn esiampl o ddull diwygiedig Eglwyswyr yr oes hon i gario allan yr un raglen. Mae yn ddull llechwraidd a Jesuitaidd, hollol deilwng o'r yspryd offeiriadol Rhufeinig, sydd wedi dyfod i mewn fel diluw i Eglwys Lloegr yn y blynyddoedd diweddaf. Mae ateb Mr. Balfour i'r Ddirprwyaeth Ymneillduol yn esiampl berffaith o'r yspryd hwn. Yr oedd e' mor ddiniwed a'r baban newydd ei eni, ac yn synu fod Dr. Fairbairn ac ereill yn cael un bai mewn mesur oedd wedi ei fwriadu i roddi y fath fanteision i Ymneillduwyr. 'Doedd ganddo yr un ateb i roddi i ymresymiadau y Ddirprwyaeth, dim ond synu eu bod mor ddall fel nas gallent weled mor ofalus oedd y Llywodraeth wedi bod am eu hiawnderau. Caiff Mr. Balfour weled, yn ddiamheu, fod Ymneillduwyr yn ddigon galluog i ofalu am eu hiawnderau eu hunain, ac yn ddigon craff i ganfod nad ydynt yn ddiogel yn ei law ef a'i dylwyth. Mae y Bil, yn un peth, wedi bod o fendith annhraethol. Mae wedi deffroi y Blaid Ryddfrydig, fel nad oes dim arall wedi ei deffroi oddiar y flwyddyn 1868. Mae y mesur a fwriadwyd gan Doriaid ac Eglwyswyr penboeth i grogi Ymneillduaeth mor debyg a dim i'w chodi ar ei thraed, a'i gwneyd hi y gallu anwrthwynebol mae hi wedi bod mewn llawer argyfwng yn hanes y wlad. Dyma'r ffordd mae Sir Gaernarfon yn myn'd i ddechreu'r rhyfel. Pasiwyd trwy fwyafrif mawr yn y Cynghor Sirol diweddaf, fod y Cynghor yn gwrthod yn gyfangwbl i osod y *Bill*, pan y daw yn ddeddf, mewn gweithrediad yn Sir Gaernarfon. Bydd y rhan fwyaf o Gynghorau Sirol Cymru yn debyg o ddilyn yr esiampl sydd wedi ei gosod o'u blaen. Mae'n anrhydedd i Gaernarfon i daro'r ergyd cyntaf yn y frwydr hon.

Dywedir nad oes dim lladd ar wirionedd. Ymddengys nad oes dim lladd ar gelwydd chwaith. Gellid disgwyl fod yr hen stori benllwyd hono am Paul a rhedegfeydd *mynydd Olympus* wedi ei rhedeg *to death* erbyn hyn, a'i chladdu yn anrhydeddus allan o'r golwg. Ond wele, mae y Parch. John Evans, Abermeurig, wedi bod yn ei throtian hi allan mor *fresh* ag erioed yn nghymdeithasfa Pencoed, Awst y 6ed. "Gallwch fyn'd," meddai ef, "fel Paul i fynydd Olympus i weled y campau a'r rhedegfeydd, &c." Os bu Paul erioed ar fynydd enwog Olympus, cartref y duwiau, a tae digwydd iddo aros yno am oes, yn sicr ni chawsai y fraint o weled y rhedegfeydd, &c. Arferai y rhai hyny fel mater o ffaith, i gymeryd lle ar wastadedd Olympia yn neheubarth Groeg ryw 120 milltir o fynydd Olympus. Tybiwn fod Mr. Evans yn ffond o chwedloniaeth mynyddau. Mae e'n son yn yr un bregeth am "y cyfarfod ystormus hwnw ar Sinai, pan yr oedd Duw a'r ddeddf yn melltenu digofaint, &c.," ac yn dweyd wrth y pregethwyr ieuainc oedd yn cael eu hordeinio am fyn'd a'u gwrandawyr "yn ddigon mynych i Galfaria,"—

"Y bryn ordeiniodd Duw
Yn nhragwyddoldeb yw,
I gadw'r marw yn fyw,
Trwy farwol glwy'."

Rhedegfeydd mynydd Olympus ydyw'r cwbl! Y cynghor fyddem ni yn roddi i Mr. Evans yw gadael y mynyddoedd a'u chwedlau, dyfod i lawr "rhwng y ddwy bont," a sefyll wyneb yn wyneb a ffeithiau, fel maent yn cyflëu eu hunain i synwyr cyffredin dyn cyffredin, gyda help datguddiadau a gwybodaeth newydd yr oes i'w sylweddoli ac i ddeall eu hystyr. Wedi'n daw pob bryn a dôl fel Sinai yn gyfrwng ewyllys Duw, bydd pob perth yn llosgi gan ei bresenoldeb; ac ni fydd Calfaria ei hun, ond esiampl o'r ddeddf hono sydd wedi gwneud pob ysmotyn, lle mae dyn wedi dioddef dros ddyn, yn gysegredig, ac yn elfen weithredol yn iachawdwriaeth y byd.

Y MESUR ADDYSG.

MAE ein darllenwyr a deimlant ddyddordeb yn nghyfundrefn addysgol ein gwlad yn ddiau yn dilyn cwrs y mesur addysg drwy y Senedd yn fanwl, fel mai diangenrhaid yw rho'i desgrifiad o hono fel y saif ar hyn o bryd. Mae rhai agweddau o hono, er hyny, yn teilyngu sylw. Ni raid dyweyd mai ein dymuniad ni yw gweled y gyfundrefn addysgol yn cael ei pherffeithio, fel ag i'w gwneud yn deilwng i'w chymharu ag unrhyw un yn y byd. Ar hyn o bryd syrth yn mhell ar ol darpariaethau addysgol Ffrainc a'r Allmaen. Mae y ddwy wlad hyn

Y CYDYMGEISWYR MWYAF PERYGLUS

â Phrydain am uwchafiaeth fasnachol y byd, a bygythir ei safle yn y cysylltiad hwn gan y cynydd anferth sydd wedi ei wneud ganddynt yn ngwrs y blynyddau diweddaf. Nid oes amheuaeth nad oes gan gyfundrefnau addysgol rhagorol y ddwy wlad a enwyd lawer i wneud â hyn. Ac os yw Prydain i gadw ei lle fel prif allu masnachol y byd, rhaid i'w phlant gael y manteision addysgol goreu ellir eu dyfeisio. A'r gwladweinydd mwyaf gwladgarol yw hwnw sydd yn cadw hyn mewn golwg yn barhaus. Mewn rhai cyfeiriadau mae y mesur presenol yn welliant ar yr hen drefn. Ond gyda gofid y sylwn fod

Y BYRDDAU YSGOLION I GAEL EU DIDDYMU,

ac awdurdodau newydd i gymeryd eu lle. Efallai nad oedd y modd y gwnelai y byrddau hyn eu gwaith bob amser yn foddhaol; a rhwydd gydnabyddwn fod enwadaeth yn cael gormod o le yn eu dewisiad. Ond er y pasiwyd Deddf 1870, maent wedi gwneud gwaith anmhrisiadwy. Maent wedi adeiladu ysgoldai yn mhob tref, pentref, a chymydogaeth lle yr oedd eu hangen, ac felly wedi dwyn manteision addysg o fewn cyraedd pob plentyn; ac y mae'r ysgolion hyn wedi bod dan ofal athrawon na cheir eu gwell yn un wlad. Mae llawer wedi ei wneud yn y cyfeiriad hwn gan yr ysgolion cenhedlaethol hefyd. Ond mae'r Ysgolion Byrddol wedi ei gwneud yn amlwg fod cyfundrefn genhedlaethol o addysg yn bosibl heb fod o dan aden unrhyw enwad crefyddol. Dichon y bydd yr awdurdodau newydd yn welliant ar yr hen Fyrddau. Os felly, da. Ond amser yn unig a ddengys hyn. Tra yn cydnabod fod rhai rhanau o'r Mesur yn welliant, mae rhanau ereill o hono mor anfoddhaol, fel mai gwell gan garwyr cyfundrefn berffeithiach o addysg ei weled yn cael ei orthrechu. Ond mae'r gobaith am hyn yn wan, oherwydd, yn ol Mr. Balfour, mae'r

LLYWODRAETH WEDI YMRWYMO I SICRHAU I'R EGLWYS

yn ymarferol, gyflawn reolaeth ar yr Ysgolion Cenhedlaethol, er fod eu cynhaliaeth i gael ei osod ar y trethdalwyr. Mae hyn yn ysmotyn ar y Mesur na fydd i garwyr addysg roi fyny i wrthdystio yn ei erbyn hyd nes ei lwyr symud ymaith. Adran anfoddhaol iawn arall yw'r un sydd yn ymdrin ag addysg grefyddol yn yr ysgolion. Mae hwn yn fater dyryslyd, oherwydd yr anhawsder i dd'od o hyd i ddeffiniad boddhaol i bawb o addysg grefyddol. Wrth addysg grefyddol y golyga pleidwyr yr Ysgolion Cenhedlaethol y credoau a'r erthyglau Eglwysig. Nid yw addysg seiliedig ar y Beibl yn unig yn ddigonol iddynt. Ac y mae yn amlwg mai amcan y blaid Eglwysig yw sicrhau cyfundrefn o addysg fydd yn cynwys darpariaeth o addysg grefyddol yn unol â'r deffiniad uchod. Mae hyn yn anghyfiawnder nas goddefir ef, fel y llwyr gredwn, gan y mwyafrif mawr o drethdalwyr y wlad—gan bawb nad ydynt aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Credwn ni mai dymunol fyddai cyfranu addysg grefyddol yn ein hysgolion, fel ag sydd wedi ei gyfranu yn y rhan fwyaf o'r Ysgolion Byrddol yn ystod y deng mlynedd-ar-hugain diweddaf gyda boddlonrwydd. Ond mae yn d'od yn amlycach bob dydd fod pleidwyr enwadaeth yn ein hysgolion yn cyflym brysuro'r adeg, pryd y bydd raid sefydlu cyfundrefn addysgol o'r hon ni fydd addysg grefyddol yn rhan, a gadael i'r eglwysi i ddarparu yr olaf, fel y dylent wneud. Yn wir, tra y parha y fath wahaniaethau yn nghylch natur yr addysg grefyddol ddylid gyfranu, ymddengys mai hon yw'r ffordd oreu i ddo'd allan o'r anhawsder.

ENILLION Y GANRIF.

Gan y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster.

VI.—Cynydd Crefyddol.—Yr Ymneillduwyr.

Yn mhlith Ymneillduwyr, y tair eglwys hen neu hanesyddol ydynt, y Presbyteriaid, yr Anibynwyr, a'r Bedyddwyr, y rhai a unwyd yn un Bwrdd yn 1727, er mwyn gweinyddu y trysorfeydd a berthynent iddynt. O'r flwyddyn 1688 yr oedd ganddynt safle a gydnabyddid yn y wladwriaeth, gallasent ddynesu at yr orsedd, a gosod eu cwynion o'i blaen. Ar y dechreu, nid oedd y Presbyteriaid yn lluosog, er eu bod yn olrhain eu dechreuad yn ol i'r Senedd Hir yn amser y Werin-lywodraeth. Nid yr un ydynt o gwbl a'r Eglwys Bresbyteraidd yn Lloegr heddyw. Canghen ydyw hono o Eglwys Rydd Ysgotland wedi ei thrawsblanu i'r wlad hon. Yr Undodiaid yw cynrychiolwyr hanesyddol yr hen Bresbyteriaid. Darfu i'w cynulleidfaoedd, yn raddol, ymlithro o Drindodiaeth trwy Ariaeth at Undodiaeth. Unodd Dr. Priestley a hwy tua diwedd y ddeunawfed ganrif, ac o dan ei arweiniad ef daethant yn raddol i'w safle bresenol. Tua dechreu y ganrif hon yr oedd bywyd crefyddol yr eglwysi hyn wedi myned yn isel, a llawer o honynt wedi diflanu yn gyfangwbl, oherwydd fel y dywedid, diffyg ysbryd sectyddol ac addysg athrawiaethol, ac hefyd y difaterwch a gynyrchir gan syniadau gau am ryddid. Yn 1846, yr oedd nifer y cynulleidfaoedd yn Lloegr yn 242; yn Ysgotland 6; yn yr Iwerddon 36; ac yn Nghymru 29. Yn ol yr *Essex Hall Year Book*, mae y nifer yn awr yn Lloegr yn 290; yn Ysgotland 7; yn yr Iwerddon 39; ac yn Nghymru 32. Er fod amryw gapeli yn y wlad wedi eu cau, mae y cynydd oddiar 1846, yn 55.

Feallai fod rhai o'r prif gyfnewidiadau meddyliol yn mhlith yr Undodiaid i'w priodoli i'r ffaith eu bod wedi rhoddi i fyny yr athrawiaeth faterol ddysgodd Priestley iddynt, ac wedi cofleidio athrawiaeth ysprydol. Yr oedd hyn yn golygu hefyd ymwrthod a'r syniad fod y gwyrthiau yn brofion o wirionedd dwyfol, yn anibynol ar gymeradwyaeth Rheswm, Cydwybod a theimladau goreu y natur ddynol. Bu y ddadl yn nghylch y gwyrthiau tua deugain mlynedd yn ol dipyn yn chwerw, a gorfu i rai gweinidogion yn Lloegr a Chymru fyned trwy fath o

Erledigaeth Ysgafn

am feiddio amheu yr hen osodiadau. Ond erbyn hyny gwawriodd y cyfnod newydd gyda dyfodiad Gwyddor a Beirniadaeth Feiblaidd, yn gosod gwedd arall yn gyfangwbl ar bethau; a chyda'r Undodiaid yn awr triga pob gweinidog yn dawel o dan ei winwydden ei hun.

Nid yw enwadau eraill wedi bod heb eu dadleuon yn ystod yr un cyfnod. Siglwyd y corff Cynulleidfaol hyd ei sylfeini yn 1856 gan ddadl yn nghylch y *Rivulet*, cyfrol fechan o gerddi crefyddol, gan y Parch. T. T. Lynch. Aroglodd rhywun athrawiaeth ddieithr yn-ddynt, ac fe aeth yn *full cry* ar ol yr heretic ar unwaith. Yn yr un flwyddyn taflwyd y Parch.

Dr. Samuel Davidson,

un o ysgolheigion Beiblaidd mwyaf yr Ymneillduwyr, allan o'i gader yn Ngholeg Anibynol Lancashire, am ei

olygiadau yn ei Ragarweiniad i'r Hen Destament. Mae cymaint o gynydd wedi ei wneud oddiar hyny fel mae golygiadau mwy hereticaidd o lawer nag eiddo Dr. Davidson yn cael eu dysgu yn awr yn mhob coleg trwy Loegr a Chymru. Yn 1832 arweiniodd y dymuniad am gymdeithas agosach rhwng yr eglwysi at yr Undeb Cynulleidfaol. Darfu i'r Undeb, yn 1833, fabwysiadu Datganiad o Ffydd, Trefn a Dysgyblaeth Eglwysig, nid fel safon yn gofyn cydsyniad, ond yn unig fel gosodiad o egwyddorion arweiniol. Mae nifer yr eglwysi oddeutu 6,000, a nodweddir llawer o honynt gan ryddid barn ac eangder meddwl. Eu hegwyddor sylfaenol yw rhyddid oddiwrth reolaeth y wladwriaeth mewn crefydd, ac yn wir oddiwrth ymyriad oddiallan o bob math. Mae pob eglwys yn ddeddf iddi ei hun.

A'r egwyddor hon hefyd mae y Bedyddwyr mewn cytundeb hollol. Yr unig wahaniaeth yw y pwys neillduol a osodant ar ddull a deiliaid bedydd. Maent hwythau hefyd wedi ffurfio undeb, ac wedi cynyddu yn fawr mewn nifer a dylanwad yn ystod y ganrif. Ar ddechreu'r ganrif, yr oedd yn bodoli dair o adranau, neu gyrph o Fedyddwyr—y Bedyddwyr Cyffredinol, y Bedyddwyr Neillduol, a chorff newydd y Bedyddwyr Cyffredinol. Yr oedd y cyntaf, gan mwyaf, yn Undodiaid mewn athrawiaeth ; yr oedd y Bedyddwyr Neillduol yn Drindodaidd a Chalfinaidd ; a'r Corff newydd yn Drindodaidd, ond nid yn Galfinaidd. Darfu i'r Bedyddwyr Cyffredinol yn raddol ddiflanu ymaith yn ystod y ganrif. Mae yr ychydig sydd mewn bodolaeth yn Undodaidd, yn parhau i weinyddu y ddefod trwy drochi, a rhaid i'w gweinidogion fod wedi eu bedyddio felly. Mae y ddwy adran arall wedi myned yn mlaen ar gynydd, yn enwedig y Bedyddwyr Neillduol. Nodweddid y corff newydd hefyd gan fesur mawr o frwdfrydedd cenhadol. Sefydlwyd Cymdeithasau Cenhadol, a dangoswyd llawer o hunaberth a sel i fyned rhag blaen trwy yr holl enwad. Fel yr oedd y ganrif yn heneiddio, yr oedd

Calfiniaeth y Bedyddwyr Neillduol

yn colli ei gafael, a dechreuodd y ddau enwad ddyfod i gysylltiadau agosach a'u gilydd trwy newid pwlpudau, ac ordeinio gweinidogion o golegau y naill y llall. Y diwedd fu i'r ddau ddyfod yn un Mehefin 25, 1891, a ffurfio corff y Bedyddwyr. Gall eglwys y Bedyddwyr ymffrostio yn

Arddercho Lu Ei Merthyri.

Ychydig erledigaeth sydd wedi bod tu fewn i'w therfynau. Rhyddid ydyw ei hawyr enedigol, a hyn er gwaethaf ei chyffesiadau Ffydd ydynt wedi bod yn lluosog. Oherwydd yr ysbryd rhydd ydym wedi son am dano maent yn fynych wedi eu cyfnewid a'u gwella i gyfarfod ag angenion ac amgylchiadau gwahanol.

Deuwn yn awr at y cyrff Methodistaidd, yn y rhai mae cynydd y ganrif yn fwy amlwg byth. Mae gan Wesleyaeth ei hymlynwyr braidd yn mhob rhan o'r byd, ac fe ellir eu cyfrif wrth y miliynau. Cyfeiriwyd o'r blaen at eu hymadawiad oddiwrth Eglwys Lloegr ; ac er fod John Wesley wedi arfer edrych ar ei symudiad fel

Canghen o Eglwys Lloegr

hyd ddydd ei farwolaeth yn 1791, eto cyflawnodd ef ei hun weithred o sism pan yr ordeiniodd ddynion, nid yn unig i bregethu yr Efengyl, ond hefyd i weinyddu y Sacramentau—gwaith nas gellid ei wneud gan neb ond Esgobion yn ol trefn yr Eglwys Sefydledig. Ar ol marwolaeth Wesley daeth y gwahaniad yn gyflawn yn 1795. Corff llywodraethol y Wesleyaid yw y *Gynhadledd*, corff sydd wedi bod yn geidwadol iawn, yn eiddigus o'i hawliau, ac wedi bod yn achos llawer o ymrysonau ac ymraniadau. Yn 1796, torwyd allan

weinidog o'r enw Alexander Kilham, yr hwn oedd yn awyddus i eangu y Gynnadledd trwy gynhwys gwŷr lleyg. Sylfaenodd ef y *Methodist New Connexion* ar yr un llinellau a'r hen gorph, ond yn rhoddi mwy o ryddid i'r gwŷr lleyg. Mae y Wesleyaid wedi dysgu oddiar hyny i ddilyn ei esiampl, ac mae gan y ddau gorph yn awr yr un gobeithion a'r un amcanion i'w cyrhaedd. Darfu i ddau Wesleyad, o'r enw Hugh Bourne a William Clowes fabwysiadu o America y dull o bregethu yn yr awyr agored, a elwir y *Camp Meeting*. Cawsant eu tori allan am hyny yn 1808, ac mewn canlyniad ffurfiwyd corff y Methodistiaid Cyntefig (*Primitive Methodists*) gyda chyfansoddiad mwy democrataidd. Cyn marwolaeth Bourne, mae wedi cael ei ddweyd, fod yn perthyn i'r corph ryw bedair mil o gapeli, ac aelodaeth o un-fil-ar-ddeg. Enwad arall o'r Wesleyaid yw y Cristionogion Beiblaidd, a ffurfiwyd gan William O'Bryan, yn benaf yn Dyfnaint a Chernyw. Daeth yr *United Methodists Free Churches* i fodolaeth drwy fod dwy ganghen arall o Fethodistiaid wedi eu huno a'u gilydd, y rhai oeddent wedi ymneillduo ar wahan oherwydd gormes swyddogol y corph gwreiddiol. Nid yw'r ysgariadau amrywiol yn ddyledus i wahaniaeth barn, ond ar faterion trefniant eglwysig. Mewn athrawiaeth mae y Methodistiaid Wesleyaidd wedi bod yn Drindodaidd, ond nid yn Galfinaidd. Gosodant bwys ar agweddau cyffredinol yr Efengyl—iachawdwriaeth i bawb heb arian ac heb werth. Galwai John Wesley Undodiaeth yn ûs, ond ei wydd eu brwdfrydedd yn *Ranters*. Yn Nghymru cymerodd y symudiad Methodistaidd gyfeiriad Calfinaidd, gan dderbyn arweiniad George Whitfield yn hytrach na John Wesley. Dynion mawr ei ddechreuad oedd

Enw am Galfiniaeth oedd Gwenwyn.

Cynyrch arall Methodistiaeth Wesleyaidd yw Byddin yr Iachawdwriaeth. Ymdebyga hon yn ei dechreuad, yn y cyffroad a'r tanbeidrwydd sydd yn ei nodweddu, i'r Methodistiaid Cyntefig, y rhai a weithient yn mhlith dosparthiadau iselaf y bobl, ac a elwid oher-

Daniel Rowlands a Howell Harris,

a bu mor ffodus a chyfrif yn mhlith ei aelodau cyntaf yr emynwr melus o Bantycelyn. Mae wedi llwyddo i gynwys ynddo ei hun rai o nodweddion goreu y genedl Gymreig, ac mae y prif symudiadau ydynt wedi nodi ei blaenfynediad yn ystod y ganrif wedi cael eu cefnogwyr mwyaf ffyddlon a galluog yn yr enwad pwysig hwn. Gyda'r rhagolygon presenol o braidd na fyddem yn mhell o'n lle wrth brophwydo mai hwn o'r holl gyfundebau crefyddol Cymreig fydd yn debyg o chwareu y rhan bwysicaf yn nadblygiad crefyddol Cymru yn ystod y ganrif newydd.

Yr ydym wedi delio yn barod yn Yr Ymofynydd ag Eglwys Bresbyteraidd Ysgotland, pan yn ysgrifenu ar uniad y ddau gorph mawr, y Presbyteriaid Unedig a'r Eglwys Rydd, fel nad yw yn angenrheidiol i ail-adrodd yr hanes. Mae canghen o Bresbyteriaeth Ysgotland wedi ei sefydlu yn Lloegr, yn cynhwys 318 o eglwysi. Perthyn iddi Genhadaethau Tramor yn India a China, ac mae ganddi Goleg newydd ei agor yn Caergrawnt. Un o'i phrif weinidogion yw y llenor a'r pregethwr adnabyddus, Dr. John Watson

(Ian Maclaren).

Mae hyn yn fy nwyn at derfyn y gyfres hon o erthyglau ar gynydd y ganrif. Mae wedi bod yn gyfnod rhyfeddol fel yr ydym wedi gweled, ond nid oes un o'r cyfnewidiadau wedi bod yn fwy nodedig na'r hyn sydd wedi cymeryd lle mewn meddwl crefyddol. Rhaid i Dduwinyddiaeth o hyd i ail drefnu, a gosod ei hun mewn cydgordiad a gwybodaeth

newydd ac agweddau newydd o feddwl sydd yn nodweddu cynydd yr oesau. Nid oes un enwad nac eglwys wedi dianc rhag dylanwad yr yspryd hwn. Ni allesid pregethu y pregethau a draddodid ar ddechreu'r ganrif yn awr; fyddai neb braidd i'w cael a'u goddefent. Mae ffyrnigrwydd Calfiniaeth wedi dystewi i roddi lle i'r yspryd hynaws a Christionogol sydd wedi treiddio trwy yr holl eglwysi; ac edrychir yn awr ar yr hen athrawiaethau, nid yn ngoleuni digofaint Barnwr a brenhin gorthrymus, ond yn ngoleuni Tadoldeb Duw a'i gariad dwyfol. Gwrthodir pobpeth na saif y prawf yna fel camsyniad a chamwri. Pregethir pobpeth a saif y prawf, gwrandewir arno gyda phob difrifoldeb, a rhoddir croesaw cynhes iddo. O dan arweiniad yr egwyddor yna mae holl adranau yr eglwys Gristionogol yn raddol yn dyfod yn nes at eu gilydd, a gwawried y bore cyn diwedd y ganrif newydd pan y byddant wedi dyfod mor agos fel ag i gydweithio mewn gwir gariad a thangnefedd dros ddaioni a thros Dduw.

CONTENTIO VERITATIS.*

GAN Y PARCH. W. TUDOR JONES, F.R.G.S., ABERTAWE.

III.—PERSON CRIST.

Mae y pwnc hwn mor ganolog i unryw gyfundrefn o Dduwinyddiaeth, fel mae o'r pwys mwyaf i wybod beth yw y gair diweddaf a ddysgir am dano gan rai o ysgolheigion mwyaf addfed a goleuedig Rhydychen; a'r hyn a geisiwn wneud fydd dangos sut mae'r ysgrifenwyr hyn yn edrych ar Berson Crist, yn gystal a chrybwyll rhai o'r rhesymau sydd wedi eu cymhell i gymeryd yr olwg hono. Gyda'r amcan hwnw cymeraf i ystyriaeth yn fwyaf neillduol yr ail a'r trydydd traethawd yn y gyfrol.

(1) Ceisia Mr. Inge yn yr ail draethawd gadarnhau y gosodiad fod hanfod yr athrawiaeth am berson Crist i'w gael yn y ffa th mai Efe yw y datguddiad uwchaf o Dduw, syniad ag y mae Undodiaid wedi dwyn tystiolaeth iddo am fwy na haner can' mlynedd. Dywedir nad yw y dwyfol yn Nghrist yn rywbeth dieithr i ddynoliaeth—yn rywbeth oedd yn Nghrist ar ei ben ei hun, ac na cheir yn neb arall. Sylwa Mr. Inge drosodd a throsodd nad yw Personoliaeth Crist ddim yn ymddibynu ar yr elfenau gwyrthiol yn yr Efengylau. Mae llawer o'r gwyrthiau nas gallwch eu sefydlu trwy brawf; nid yw y profion, fel y dywed Mr. Inge ei hun, yn ddigon i gyfiawnhau cred yn llawer o honynt. Nis gellir eu gwneud yn sylfaen i'r athrawiaeth am Berson Crist.

Dysga'r llyfr hwn i ni fod dau o bethau i'w cael yn yr Efengylau. Ar

---

* CONTENTIO VERITATIS. Essays in Constructive Theology, by Six Oxford Tutors. London: John Murray, Albemarle Street. 1902.

un llaw mae hanes am bethau ydynt yn gyfangwbl tuallan i linellau y profiad dynol a gweithrediadau natur. Ar y llaw arall mae yn yr Efengylau bethau ag mae y profiad dynol yn dwyn tystiolaeth fod yr ystyr ddyfnaf iddynt yn y bywyd dynol. Dylai y ddau ddosbarth hwn o bethau gael eu gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd fel yr unig ffordd i gyrhaedd yr olwg iawn ar Berson Crist. Er mwyn deall ystyr bywyd Iesu rhaid gwahanu hanes ac addysg Iesu oddiwrth yr elfen wyrthiol; a phan y mae hyn wedi ei wneud, mae bywyd Iesu yn dyfod yn llawn ystyr a phrydferthwch.

Gosoda y llyfr hwn allan yn ddigon clir fod Iesu Grist yn *ddyn.* Nid oes un engraifft yn y llyfr lle y dygir gwyrth i fewn er mwyn profi ei ddwyfoldeb. Ond beth yw "dwyfoldeb Iesu"? Dylid sylwi mai dim ond yn ddiweddar mae'r gair "dwyfoldeb" yn cael ei gymhwyso at Iesu mewn cylchoedd iawnffyddol. Yr hen air oedd *duwdod*—gair na chlywir mor aml yn awr ag yn y dyddiau gynt. Fel mae'n digwydd, defnyddir y gair *dwyfoldeb* yn aml mewn duwinyddiaeth Undodaidd, i gario allan ystyr hollol wahanol i'r gair *duwdod.* Duw mewn dyn ydyw, cymaint o'r dwyfol ag y gall y dynol gynwys. A beth yw'r dwyfol hwn sydd yn y dynol? Nid rhywbeth sydd yn dyfod i ddyn o'r tu allan, rhywbeth gwahanol oddiwrth feddyliau a theimladau dyn ei hun. Mewn gair, mae y dwyfol yn y dynol yn golygu yr oll sydd oreu yn ein meddyliau, ein teimladau a'n gweithredoedd. Mae ein cyrff wedi eu gwreiddio yn natur; mae ein hen-eidiau, ein meddyliau, a'n teimladau o hiraeth ysprydol wedi eu gwreiddio yn y dwyfol—yn Nuw. Ac fel y cedwir y corff yn iachus, trwy y cymhwysiad iawn at ei amgylchynedd, felly mae yr enaid yn dyfod yn fwy iachus o hyd trwy gymhwysiad agosach at ei amgylchynedd, yr hwn yw Duw. Felly mae y dwyfol yn y dynol yn golygu fod yr enaid, y meddyliau, a'r teimladau yn dal cymundeb a Duw o'r hwn maent wedi deilliaw.

Yn yr ystyr yna yr ydym ni oll yn dduwiau. Dywed yr Iesu ei hun "Duwiau ydych"; ac felly y defnyddir yr ymadrodd yn yr Hen Destament. Yr oedd Iesu yn yr ystyr hon yn Dduw, ac felly am bawb yn y rhai mae'r dwyfol wedi ymgnawdoli yn y dynol. Ond gwell ydyw ar y cyfan i beidio defnyddio y gair mewn ystyr ddeublyg. Yr ydym yn sicr o un peth, a hwnw, feddyliwn ni, ydyw'r agoriad i'r athrawiaeth am berson Iesu. Yr ydym ni yn fodau gyda dau wreiddyn—un yn natur—y corff; y llall yn y dwyfol—yr enaid, y meddyliau a'r teimladau a'r oll a gynhwysant. Ag edrych ar bethau o'r olwg yma, gallwn ddeall ystyr dwyfoldeb Iesu heb angen am un wyrth i'n cynorthwyo.

Er yn nodi pwysigrwydd y golygiad uchod, mae Mr. Inge yn ei draethawd, yn cloffi er mwyn ceisio sefydlu yr angenrheidrwydd am addoli Crist. Os wrth addoli Crist, y golyga dalu gwarogaeth iddo—myfyrio ar ei fywyd a'i angeu, a hiraethu am yr un perffeithrwydd ysprydol ag oedd ynddo ef, yr ydym fel Undodiaid, ni a gredwn, yn *gwneud y peth ei hunan,* er nas galwn ef yn addoliad. Ond y peth mawr i'w gofio yw fod y dwyfol yn y dynol a'r natur ddynol wedi ei gwreiddio yn y natur ddwyfol; ac mae hon yn ffaith gyffredinol ac nid neillduol.

(2) Wrth droi at draethawd Mr. Wild ar "Addysg Crist" yr ydym wyneb yn wyneb a'r un pethau. Dywed wrthym fod yn rhaid dynesu at yr Efengylau yn yr ysprŷd gwyddorol, h. y., rhaid cael allan beth mewn gwirionedd yw'r *ffeithiau* a gofnodir yn yr Efengylau. Mae hwn yn waith anhawdd, ond dyma'r unig ffordd i sicrhau unrhyw ffrwyth arosol. Cesglir rhywbeth newydd o hyd gan bob ymchwiliwr, ond pan y gosodir y darganfyddiadau wrth eu gilydd, pan y cydgesglir ffrwyth ymofyniad gonest y ganrif ddiweddaf, er engraifft, cawn weled fod llawer atalfa wedi ei symud, llawer congl dywyll wedi ei goleuo, a'r Iesu ei hun, fel ag yr

oedd, yn dyfod yn fwy i'r golwg yn nghegwch ei brydweddau dwyfol a dynol. Er mwyn sicrhau hyn rhaid wrth y defnydd o'n rheswm ac o bob gwybodaeth gyrhaeddadwy. Bydd person Crist yn golygu mwy i ni, po fwyaf ddeallwn o hono. Nid trwy dderbyn damcaniaethau *am* ei berson, nad oes ynddynt fawr o gysylltiad a meddwl, fawr o berthynas a phrofiad dynol—nid yn y modd yna y deuwn ni i ddeall person Crist. Gesyd Mr. Wild bwys ar hyn; rhydd groesaw i'r yspryd newydd sydd ar led, yr yspryd sydd yn gofyn esponiad ar bethau, yn gofyn fod person Crist fel pob pwnc arall i gael ei ddwyn tu fewn i afael ein meddyliau, ac ymgais yn cael ei wneyd i'w ddeall yn ngoleuni y profiad dynol. Hon yw yr unig ffordd i ddwyn Crist yn agos atom fel ffaith sylweddol.

(3) Ymddengys mai swm y cwbl ydyw hyn. Rhaid i ni ddefnyddio ein rheswm a phob gwybodaeth tu fewn i'n cyrhaedd er deall yr Efengylau. Gollyngwn afael ar ragdybiau a rhagfarnau o bob math os yn awyddus i wybod y gwirionedd. Os am gael gafael yn y gwir Iesu, cofiwn nad yw y gwyrthiol a'r chwedlonol ddim yn cyfansoddi hanfod ei fodolaeth; nad oedd ei ddwyfoldeb ddim yn rywbeth eithriadol, ond mai ei ystyr yw ei fod wedi ei lanw a Duw a daioni i raddau nad ydym ni wedi sylweddoli eto. Yn y modd hyn y mae ef yn Arglwydd i ni. Darfu iddo ef fyw ei fywyd yn Nuw. Datguddiodd i ni y Tad. Dangosodd fod bywyd yn gynwysedig mewn ufudd-dod i ewyllys Duw, ac ymlyniad wrth bob peth sydd yn dda. Dysgodd i ni mai bywyd o gariad a gwasanaeth—marwbeunydd i bechod a hunan; colli ein hunain mewn hunanaberth er daioni i ereill yw y bywyd uwchaf yn ngolwg Duw. Trwy wneud hyn, a byw fel Iesu ei hun, trwy gyfarfod ag amgylchiadau ein tynged yn yr un yspryd ag ef, y deuwn ni i ddeall person Crist, a gwir ystyr ei fywyd a'i angeu. Tyf yr athrawiaeth iawn am ei berson allan o fywyd a drefnir yn y modd hwn, ac yn ngwyneb Iesu y gwelwn ddatguddiad prydferthaf y ddaear o'i Dduw ef a'n Duw ninau, ei Dad ef a'n Tad ninau, yr hwn sydd oll yn oll, ar yr hwn y gallwn orphwys am y presenol a gobeithio am y dyfodol.

ANFARWOLDEB YR ENAID.*

GAN Y

PARCH. T. H. WILLIAMS, GWEINIDOG WESLEYAIDD, LLANDYSSUL.

Mae Dr. Joseph Agar Beet, athraw mewn duwinyddiaeth yn un o golegau y Cyfundeb Wesleyaidd (Llundain), wedi cyhoeddi llyfr newydd ar *Anfarwoldeb yr enaid.*

Bu y llyfr hwn yn achlysur i greu cynhwrf anghyffredin drwy holl ororau yr enwad y perthyna y Dr. galluog a dysgedig iddo. Ofnid gan rhai o gyfeillion y Dr. y buasid yn ei daflu allan o'r enwad Wesleyaidd am feiddio o hono dori tir newydd yn nglŷn ar pwngc dyrys a phwysig ag sydd yn benawd yr ysgrif hon, ac hefyd yn destun y llyfr dan sylw.

---

* IMMORTALITY OF THE SOUL, by Joseph Agar Beet, D.D. Hodder & Stoughton. 2s.

Mae Dr. Beet yn un o dduwinyddion blaenaf y dydd, ac yn sicr o fod yn tra ragori ar bawb o'i frodyr yn yr enwad Wesleyaidd fel esponiwr Beiblaidd. Dichon fod a fyno hyny a'r helynt fawr, ac a'r areithiau chwerwdost a draddodwyd yn y *Gynhadledd Flynyddol* ddiweddaf yn erbyn y dyn a'i lyfr. Mae cenfigen yn teyrnasu mewn lleoedd cysegredig weithiau, ac yn cymeryd mantais anheg ar amgylchiadau a ddichon godi er cyrhaedd ei hamcanion iselwael ei hun.

Ymrana llyfr Dr. Beet i bump o benodau fel a ganlyn :—"Anfarwoldeb cyn Crist," "Dysgeidiaeth Crist," "Anfarwoldeb yn yr Eglwys foreuol," "Anfarwoldeb yn y Dduwinyddiaeth ddiweddaraf," ac yn olaf, "Canlyniadau Ymarferol Dedfryd y Colledig." Dechreua ei lyfr drwy ddweyd fod anfarwoldeb yr enaid yn athrawiaeth a gredid am oesau lawer. Yr athrawiaeth hon ydoedd sylfaen Cristionogaeth a chrefydd. Yr oedd yr ymadrodd a'r athrawiaeth yn mysg y Groegiaid : ac athrawiaeth debyg yn mysg yr Aiphtiaid ; tra yr oedd yr ymadrodd a'r athrawiaeth mewn ysgrifeniadau Iuddewig ychydig cyn neu yn fuan ar ol ymddangosiad Crist. Mae Plato fel prif gynrychiolydd y Groegiaid yn dysgu anfarwoldeb yr enaid, h.y., anfarwoldeb i'r da ac i'r drwg. Mae yr Aiphtiaid yn foreuach na philosophyddion Groeg yn dysgu y byddai y dyn da fyw byth, ond mai difodiant fyddai tynged yr un drwg. Mewn cysylltiad a'r Iuddewon dywedir nad oes dim yn yr Hen Destament yn dysgu y bydd eneidiau yn *meddwl* ac yn *teimlo* am byth. Nid yw y ffaith a ddysgir yn Genesis, sef fod dyn wedi ei greu ar ddelw Duw yn unrhyw brawf y bydd iddo barhau i fodoli am oesoedd diderfyn, pan y bydd pwrpas moesol ei fodolaeth yn fethiant terfynol, a bodolaeth wedi dadblygu yn felldith digymysg.

Nid yw yr ymadrodd, "Yna y dychwel yr Ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef," yn golygu anfarwoldeb yr enaid, eithr yn hytrach cyfeiria at y farn ddiweddaf. Nid yw y geiriau yn Dan. xii., 2, yn golygu *ymwybodolrwydd tragwyddol*, eithr yn hytrach effeithiau parhaol dedfryd y colledig ar eraill. Mae fod ad-daliad tu draw i'r bedd (elfen mor bwysig yn y ddysgeidiaeth Gristionogol) yn cael cyn lleied o le ac amlygrwydd yn yr Hen Destament mewn gwrthgyferbyniad i'r amlygrwydd mawr roddir i'r ddysgeidiaeth yn nghrefydd foreuol yr Aipht, ac yn nysgeidiaeth Plato yn un o'r ffeithiau mwyaf dyrus yn nglŷn a duwinyddiaeth yr Hen Destament. Yn yr ail benod dywedir fod Crist a'i Apostolion yn dysgu ad-daliad am weithredoedd gyflawnwyd ar y ddaear. Dywedir fod y gair *aionios* wedi tarddu o *aion*, yr hwn a olyga *oes* neu *fywyd*. Addawyd Canaan i had Abraham yn etifeddiaeth dragwyddol. Mae Crist yn rhoddi bywyd tragwyddol i'w ddisgyblion. Mae bywyd anfarwol Crist ei hun yn brawf o hyny. Mewn gwrthgyferbyniad i'r bywyd roddir gan Grist i'w ddisgyblion saif dinystriad yr annuwiol. Tair canrif cyn Crist yr oedd yr Iuddewon o dan lywodraeth y Groegiaid, neu mewn cysylltiad agos a'u llenyddiaeth. Dysgodd Plato fod pob enaid yn anfarwol, ond dywed yr awdwr nad oes i'r fath syniad le yn nysgeidiaeth Crist a'i apostolion.

Tipyn yn gymysglyd ydyw yr ail benod yn ol ein barn ni ; ac nid ydym yn sicr iawn fod cysondeb yn rhedeg drwyddi, Er engraifft, dywed Dr. Beet, fod dysgeidiaeth y Testament Newydd am "Anfarwoldeb yr Enaid" wedi dyfod o'r athroniaeth Roegaidd ; ac ar ol hyny dywed fod Crist a Plato yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn eu dysgeidiaeth am anfarwoldeb yr enaid. Y maent yn gwahaniaethu mewn hyn o beth : tra yr oedd Plato yn dysgu fod pob dyn (da a drwg) yn anfarwol ; nid oedd Crist a'i apostolion yn dysgu mwy nag anfarwoldeb i'r cyfiawn, a dinystr i'r anghyfiawn. O ganlyniad, methwn a gweled fod dysgeidiaeth y Testament Newydd am anfarwoldeb yr enaid wedi tarddu o'r athroniaeth Roegaidd.

Yn y drydedd benod mae yr awdwr yn olrhain anfarwoldeb yn yr Eglwys foreuol. Yr oedd un o'r enw Tertullian yn ngogledd Affrica yn ysgrifenu yn yr iaith Lladin yn nechreu y drydedd ganrif i ddysgu y byddai y colledig yn dioddef yn dragwyddol; tra yr oedd un o'r enw Origen yn dysgu y byddai pob dyn yn y diwedd yn gadwedig. Mae yr ysgrifenwyr boreuol hyn yn gwahaniaethu yn eu barn parthed anfarwoldeb yr enaid. A dywed Dr. Beet fod yr ymadrodd :—"Anfarwoldeb yr Enaid," fel yr oedd yn cael ei ddefnyddio gan dduwinyddion yr Eglwys foreuol wedi ei fenthyca allan o ddysgeidiaeth Plato; ac nad oedd y cyfryw ysgrifenwyr byth yn apelio at y Beibl fel llyfr oedd yn ategu eu dysgeidiaeth. Yr oedd eu dadleuon i gyd yn ymdebygoli i eiddo Plato.

Symuda yr awdwr yn mlaen i drafod Anfarwoldeb, yn y dduwinyddiaeth ddiweddaraf; a chyfeiria at haner dwsin o ddoctoriaid amlwg y dydd, a dywed nad oes cymaint ag un o honynt yn ceisio profi oddiwrth y Beibl fob pob enaid yn anfarwol. Mae y distawrwydd hwn yn brawf na ddysgir yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid yn uniongyrchol yn yr ysgrythyrau. Yr oedd Gladstone yn gwadu yn gadarn fod y Beibl yn dysgu anfarwoldeb yr enaid. Ar *opiniwn philosophaidd* y gorphwys y syniad; a dywedir y dylid bod yn ofalus i wahaniaethu rhwng opiniynau philosophyddion ar un llaw, a datguddiad dwyfol ar y llaw arall.

Yn y benod ddiweddaf o'i lyfr ymdrinia Dr. Beet a'r pwnc dyrus o

DDEDFRYD Y COLLEDIG.

Cyfeiria at adnodau ag sydd yn dysgu uwchafiaeth dyn ar bob creadur arall yn y byd hwn. Dysgir yn y Beibl fod dyn er yn bechadur wedi ei wneud ar ddelw Duw. Golyga hyn debygolrwydd moesol i'r Creawdwr. Mae y bywyd tragwyddol roddir gan Grist yn dibynu ar ffydd ac ufuddod, h.y., bywyd amodol ydyw.

Dywed yr awdwr fod y Beibl yn dysgu fod dyn wedi ei fwriadu i fod yn gydgyfranogol o

DDEDWYDDWCH DIDDIWEDD DUW :

ond nad ydyw hyny yn golygu y bydd i bob dyn fodoli am byth pan y bydd bodolaeth wedi myned yn felldith digymysg. Mae yr athrawiaeth am anfarwoldeb yr enaid yn bwysig am ei bod yn cyffwrdd â thynged y drygionus. Cyfeirir at adnodau ag sydd yn desgrifio angherddolrwydd poenau y rhai colledig, ond ni ddywed yr adnodau hyny ddim am barhad y dioddef. Dywed Dr. Beet fod y gair Tragwyddol yn golygu :—Oes-barhad (*Age-lasting*) a gwna ddefnydd mynych o hyn. Dywedir y bydd y gosp am bechod yn y dyfodol yn golygu nid yn unig ddioddefaint ynddo ei hun, eithr hefyd golledigaeth y dedwyddwch tragwyddol fwriadwyd i ddyn. Mae yr awdwr fel pe yn cyfeirio at *ddifodiant* yr annuwiol, ac y bydd hyny ynddo ei hun yn golygu cospedigaeth. Mae yr adnodau sydd yn llyfr y Datguddiad yn cyfeirio at gosp yr annuwiol yn y byd arall yn rhy ffigyrol i fod yn sylfaen athrawiaeth mor bwysig â thragwyddol ddioddefaint.

Gesyd yr awdwr bwys mawr ar y cyfeiliornad o ddefnyddio ychydig adnodau yma ac acw yn sylfaen athrawiaeth mor bwysig a'r un sydd genym o dan sylw. Dywedir fod athrawiaethau mawrion yr Efengyl yn cael eu hategu gan gyflawnder o adnodau. Nodir hefyd fod yr adnodau gyfeiriant at deyrnasiad cyffredinol Crist yn taro yn erbyn yr athrawiaeth draddodiadol am ddioddefaint diddiwedd y colledig : megys yn Phil. 11 : 10—"Rhaid i bob glin blygu," &c. Ac yn mhellach mae yr awdwr yn dywedyd fod *moral sense* —synwyr moesol—miloedd o ddynion a merched synhwyrol yn

CODI MEWN GWRTHRYFEL (REVOLT)

yn erbyn cosp dragwyddol. Mwyaf i gyd y myfyriant ar y fath gosp, y mae yn myned yn anhawddach i'w

chysoni gyda chariad anfeidrol ac hyd yn nod gyda chyfiawnder Duw. Mae yn y meddwl dynol syniad cynhenid am gyfartaledd rhwng yr hyn ellir eu galw yn drosedd a chosp. Dywed yr awdwr fod plant deg mlwydd oed, pe buasai rhywun yn dywedyd wrthynt fod tad wedi cospi ei blentyn (pa mor ddrwg bynag oedd y plentyn) drwy ei losgi i farwolaeth, fe fuasai eu synwyr cynhenid yn eu rhwystro i gredu yn ngeirwiredd y fath ddywediad.

Dywed yr awdwr yn mhellach fod ad-daliad tu draw i'r bedd, ac yn neillduol y gospedigaeth am bechod yn ddirgeledigaethau anesponiadwy. Nid yw y Beibl, medd Dr. Beet, yn taflu goleuni digonol ar yr hyn a wna y Barnwr Mawr gyda phlant dynion yn y byd a ddaw.

Wrth derfynu hyn o adolygiad, teg ydyw nodi mai cymysglyd ydyw y llyfr hwn. Yr ydym wedi ei ddarllen yn ofalus ddwy waith drosodd; a meiddiwn ddadgan fod yn anhawdd gwybod gyda sicrwydd terfynol pa safle mae yr awdwr yn gymeryd. Gellid meddwl weithiau ei fod yn dal allan *Ddifodiant* yr annuwiol. Bryd arall gellir tybio ei fod yn ffafriol i'r hyn a elwir yn *Adferiad Cyffredinol.*

Dysgwyliasom drafodaeth fwy pendant ar "Anfarwoldeb yr Enaid" wrth ddechreu darllen y llyfr; ac ofnwn yn fawr fod yr awdwr galluog a dysgedig o dan ddylanwad ac arweiniad ei deimladau tyner ei hun wrth ysgrifenu am y gosp ag sydd yn dilyn bywyd o bechod. Cawsom y fraint o weled Dr. Beet, ac eistedd yn ei ymyl am haner awr o amser; a gallwn ddweyd ei fod yn ddyn o organyddiaeth *fine* iawn; y mae y tyner a'r tosturiol yn gryfion yn ei natur. Felly, nid ydyw yn unrhyw syndod ei fod wedi codi ei lef yn erbyn y syniadau traddodiadol am drueni a chosp yn y byd a ddaw. Cynghorem y meddylgar i brynu ei lyfr a'i fyfyrio yn ofalus.

ATHRONIAETH Y MEDDWL.*

GAN Y

PARCH. W. TUDOR JONES, F.R.G.S., ABERTAWE.

Mae yn bleser mawr genym alw sylw darllenwyr YR YMOFYNYDD at y llyfr pwysig hwn. Hwn ydyw'r llyfr cyntaf ymddangosodd yn Nghymru ar athroniaeth y meddwl, ac yn ol ein barn onest cymer amser maith cyn yr ymddengys ei well. Mae Dr. Phillips yn hollol gymhwys i'r gwaith. Treuliodd flynyddoedd yn Ngholeg y Brifysgol yn Nghaerdydd i astudio'r maes o dan arweiniad y Proffeswyr Sorley a Mackenzie, a thâl deyrnged o ddiolchgarwch i'w hen athraw, y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; ac yn ystod y deng mlynedd diweddaf mae wedi llafurio gydag ymdrech gwerth i weinidogion ieuainge ereill gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ganlyn ei esiampl. Bydd canlyn ei esiampl yn fendith pen a chalon i weinidogion Cymru, ac yn

*ATHRONIAETH Y MEDDWL, gan y Parch. D. M. Phillips, M.A., Ph.D. Cardiff: Roberts Brothers.

anrhaethol fwy proffidiol nag astudio agweddau o dduwinyddiaeth sydd heb unrhyw berthynas agos a gwybodaeth y dydd. Yn y llyfr pwysig hwn ca'r Cymro uniaith olwg gywir a chlir ar ran gyntaf athroniaeth y meddwl. Cynwysa'r gyfrol hardd yn agos i 600 o dudalenau, ac eto nid ydyw'r awdwr wedi gorphen un rhan o dair o'r gwaith. Hyfrydwch o'r mwyaf genym, gan hyny, ydyw gweled fod yn mwriad Dr. Phillips i ddwyn allan dair cyfrol ychwanegol. Yn y llyfr mae ol nid yn unig cerddediad manwl ar lwybrau prif athronwyr y dydd ond ol llwybr a dŷr Dr. Phillips iddo ei hun. Gwahaniaetha mewn amryw fanau oddiwrth ei feistri, a rhaid i ni gyfaddef ei fod yn gwneud hyn yn feistrolgar ac yn ostyngedig.

Llawenydd genym weled yr elfen grefyddol yn rhedeg fel ffrwd risialaidd trwy'r holl gyfrol. Nid oes gwerth parhaol mewn unrhyw gyfundrefn o athroniaeth sydd yn gadael allan "enaid dyn." Mae penodau cyntaf y llyfr yn werthfawr yn yr ystyr yma. Adlewyrcha'r llyfr glod ar allu a llafur yr awdwr, a mawr hyderwn y gwelir llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD y gauaf dyfodol yn derbyn maeth oddiwrtho. Dylai'r llyfr hefyd fod yn foddion i roddi syniadau eglurach ar y natur ddynol ac i bontio'r gagendor sydd yn Nghymru rhwng athroniaeth a duwinyddiaeth. Llwyddiant i Dr. Phillips i gario allan ei gynllun, a thrwy hyn hau hadau yn naear dduwinyddol Cymru—hadau a ddygant ffrwyth maes o law ar eu canfed.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YSGRIFENYDD.

GORPHENAF 10, 1902.

Yn y cyfarfod hwn, cyfarfod blynyddol canmlwyddiant y Gymdeithas fel cyfrwng cenhadol, beth bynag, gadewch i ni longyfarch ein hunain ar y ffaith fod yr egwyddorion y safwn ni drostynt wedi gwneud cymaint o gynydd yn ystod y can' mlynedd sydd wedi pasio, a'n bod ninau wedi gwneud ryw ychydig, beth bynag, ar y maes Cymreig i ddangos nad yw calon a meddwl Cymro ddim yn *broof* hollol yn erbyn atdyniad syniadau rhyddfrydig. 'Rwy'n sicr y byddwch yn cytuno a mi fod y Gymdeithas yn sefyll ar dir mwy manteisiol, ac mewn sefyllfa i wneud mwy o ddaioni, gyda llai o atalfeydd i frwydro yn eu herbyn na phan y cychwynwyd hi yn 1802. Mae y *current* fel pe byddai yn dechreu troi gyda ni, ac er nas gallwn ddisgwyl unryw chwyldroad a wna yr Eglwys Undodaidd yn un o eglwysi mawrion y dyfodol, eto mae'n ymddangos yn sicr y bydd yr egwyddorion hyny ydym ni wedi bleidio yn ngwyneb cymaint o wrthwynebiad yn chwareu rhan bwysig yn nadblygiad a bywyd holl eglwysi cred yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Wel, i ddychwelyd at hanes syml cartrefol yr ychydig eglwysi ag y mae y Gymdeithas hon yn gynrychioli, mae'n dda genym weled fod rhai bylchau pwysig yn y weinidogaeth wedi neu ar fin cael eu llanw. Mae Mr. J. P. Kane, o Goleg Caerfyrddin, wedi derbyn galwad i fod yn weinidog yn Dowlais, ac mae cyfarfodydd ei sefydliad i gymeryd lle y Sul a'r Llun nesaf. Mae Mr. Evan Oliver Jenkins, o'r *Home Missionary College*, Manchester, ar ddechreu ei weinidogaeth yn Llwynrhydowen a Chapelyfadfa—cynulleidfaoedd pwysig ydynt wedi bod heb weinidog er ys yn agos i chwe mlynedd. Mae y Gymdeithas hon wedi bod yn gwneud rhyw ychydig er ys rhai blynyddau i helpu yr achos yn y Wig, ac yr ydym yn gobeithio y bydd ein chwaer Gymdeithas—y Gymdeithas Saesneg—yn llwyddianus, mewn ychydig fisoedd, i osod cenhadwr yn Mhenybont, gwaith yr hwn fydd edrych at angenion y ddau le. Mae yn dda genyf fod yr unig achos cenhadol ar hyn o bryd dan nawdd y Gymdeithas, sef Sychbant, yn parhau o dan ofal profedig a gweinidogaeth effeithiol y Parch. J. Davies i wisgo gwedd lewyrchus ac addawol. Mae yno gynulleidfa sydd yn fwy na llawn yr ystordy lle y cyfarfydda, ac mae, yn fy marn i, angen gwaeddfawr am adeilad syml ond digonol i gyfarfod a'r gwaith sydd yn cynyg ei hun i sel Undodaidd yn y gymydogaeth hon. Mae ffermwr a thirfeddianwr cyfagos yn barod i roddi tir am ddim at y capel newydd, a dim ond ychydig ymdrech sydd yn eisiau, yn neillduol o dan arweiniad capten fel Mr. Davies, i wneud y peth yn ffaith sylweddol yn mhen blwyddyn neu ddwy.

Un peth ag ydwyf am alw sylw ato, gan ei fod, i'm tyb i, yn arwydd mor amlwg o egni a thanbeidrwydd y bywyd crefyddol yn ein cynulleidfaoedd yn neillduol yn Sir Aberteifi, sef nifer y bechgyn ieuainc sydd yn ymgeisio am y weinidogaeth yn ein plith, yn nghanol y temtasiynau sydd yn gyru pobl ieuainc i alwedigaethau mwy enillfawr. Bydd y nifer blwyddyn nesaf yn chwech—tri yn Manchester a thri yn Rhydychen; ac mae'n dda genyf ddweyd fod tri arall mewn ysgolion parotoawl heddyw, a byddant yn barod yn mhen ychydig o amser i steppo i fynu i lanw lle y tri ydynt wedi dyfod allan eleni i lanw pwlpudau gweigion yn Nghymru a manau eraill. Mae un yn ysgol Mr. Evans yn y Cribyn; y llall, aelod bedyddiedig o hen Eglwys fedyddiedig Panteg, yn Ysgol Sirol Llandyssul; a'r llall, gwr ieuainc o Sir Aberteifi eto, mewn ysgol yn Mhontypridd, ac yn debyg o enill ysgoloriaeth *external* Coleg Manchester y flwyddyn nesaf. Pe buasai cynulleidfaoedd Undodaidd y wlad yn cynyrchu *students* ar raddfa "Ysmotyn Du" Ceredigion fe fyddai ryw *chance* gyda'r ysbryd iawn i holl *fap* Prydain Fawr i gael ei anurddo gan ysmotiau duon yn mhob cyfeiriad.

Da genyf ddweyd fod cyllid y Gymdeithas wedi cynyddu yn sylweddol y flwyddyn hon, fel y cewch wybod pan y darllenir y *balance sheet*. Mae llawer o aelodau newyddion wedi ymrestru o dan y *clause* sydd yn gwneud amod arianol aelodaeth yn 2/6. Nid wyf yn gweled paham nad yw yn bosibl, gydag ychydig o ffyddlondeb yn mhob eglwys, i gael nifer fawr o danysgrifwyr o dan y penawd hwn. Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar neillduol am yr help ydym wedi gael oddiwrth Eglwys Abertawe a chyfeillion yno yn ystod y flwyddyn hon. Cyn eleni yr oedd genym un tanysgrifiwr yno o 10/6—Mr. E. J. Thomas. Trwy help gwerthfawr y cyfaill hwnw, a'r gweinidog brwdfrydig, Mr. Tudor Jones, mae cyfraniad Eglwys Abertawe eleni yn £2 19s. 6c. Diolch yn fawr iddynt. Gyda golwg ar adran YR YMOFYNYDD, mae yn dda genyf ddweyd fod y rhagolygon yn hollol ffafriol. Yr ydym yn argraffu 1,200 o gopiau yn y mis, ac mae ymgais yn cael ei wneud, gyda help y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, i osod copi yn mhob darllenfa gyhoeddus trwy Gymru. Fe gymer

hyn amser i'w sicrhau yn gyflawn, ond mae un o'r Golygwyr wedi ac yn talu sylw arbenig at y cyfrwng hwn i osod y papyr ar ffordd pobl sydd yn ddarllen yn mhob ran o'r Dywysogaeth. Pan y gosodir y *Postal Mission* mewn *working order*, yr ydym yn gobeithio y profa hwn yn gyfrwng arall i wneud cenhadwri YR YMOFYNYDD yn adnabyddus. Yr ydym yn cael ambell i dystiolaeth i werth y papyr o fanau na ddisgwyliem ni. Tystiolaeth un o Fethodistiaid mwyaf blaenllaw ac *intelligent* yn Penygraig, Cwm Rhondda yn ddiweddar oedd mai dim ond dau fisolyn Cymreig oedd yn werth rhagor na'r ceiniogau a delid am danynt. Pa rai oeddynt, feddyliech chwi? *Trysorfa'r Plant* a'r YMOFYNYDD. A gawn ni gyd, ynte, wneud ein goreu drosto? Eich papyr chwi ydyw e' 'nawr. Cymerwch *interest* serchus ynddo fel eich eiddo, fel pe buasai fe yn eidon, yn fuwch, yn geffyl neu yn *fusnes* ag ydych chwi yn teimlo fod rywfaint o'ch bywyd beunyddiol yn gydweuedig ag ef. Ar ddechreu can' mlynedd arall yn ein hanes, gadewch i ni oll werthfawrogi y grefydd ydym ni yn broffesu, sylweddoli y manteision sydd yn ein dwylaw, a'r angenion sydd yn crio o'n hamgylch am eu cyflenwi; ac yn ngrym brwdfrydedd newydd gadewch i ni fyned yn mlaen yn y rhan hon o'r winllan ag mae Duw wedi osod o dan ein cadwraeth i wneud a allwn dros wirionedd a chyfiawnder, ac i brysuro dyfodiad ei deyrnas yn nghalonau dynion.

CYFARFODYDD SEFYDLU Y PARCH. E. O. JENKINS.

Dydd Sul a dydd Llun, y 3ydd a'r 4ydd o'r mis diweddaf, cynhaliwyd y cyfarfodydd uchod. Disgwyliwyd am flynyddau am y dydd hwn, a mawr oedd yr holi—"faint o amser sydd i aros eto?" Dechreuwyd y gyfres gyfarfodydd hyn boreu Sul yn y Bwlch, pryd y pregethwyd gyda nerth gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen. Yr oedd yn ei hwyliau goreu. Yn y Llwyn am 2, cynhaliwyd cyfarfod amrywiaethol, yn benaf er dathlu agoriad yr *Organ* newydd yn y capel. Chwareuwyd yn fedrus gan Miss Jane Thomas, Clifton Terrace, Llandyssul. Canwyd unawdau yn swynol iawn gan Miss Eilir Evans, o Gaerdydd, ac ereill. Cafwyd anerchiad gan y Prifathraw Gordon, Manchester. Yn y Bwlch, am 6, pregethwyd gan y Parch. T. A. Thomas yn Gymraeg, a chan y Prifathraw Gordon yn Saesneg. Priodol ydyw dweyd fod y cyfarfod drwyddo yn hwylus ddigon a'r capel yn orlawn. Boreu Llun, yn y Bwlch eto, pregethwyd siars i'r gweinidog gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, ac i'r gynulleidfa gan y Parch. W. James, B.A., Llandyssul. Yr oedd y ddau y rhai mwyaf cymhwys i'r gwaith, gan fod Mr. Jenkins wedi ei godi megys wrth draed y blaenaf, a'r olaf yn meddu ar brofiad melus fel cyn-weinidog i'r ddwy eglwys uchod am lawer o flynyddau. Canwyd anthem "Pa le mae gwaredwr Israel," (*Glyndwr Richards*) yn undebol, y ddwy eglwys dan arweiniad Mr. Jones, Rhydowen Mills.

Yn y Llwyn, prydnawn, o dan lywyddiaeth y Parch. J. Davies, Alltyplacca, cynaliwyd cyfarfod cymysg o siarad a phregethu. Croesawyd y

gweinidog i'r Llwyn mewn geiriau pwrpasol gan yr adnabyddus Capt. Davies, a'r un modd ar ran y Bwlch gan Mr. J. R. Thomas, Ysgolfeistr, Pontshan. Siaradwyd hefyd gan y Prifathraw Gordon yn hynod o effeithiol. Atebwyd yn hynod darawiadol, yn Gymraeg a Saesneg, gan y Parch. E. O. Jenkins, y gweinidog presenol. Anerchwyd yn mhellach gan foneddiges o'r enw Miss Tagart, yr hon yn nghyd a'i pharti o Aberystwyth, a dalodd ymweliad a ni yn y Bwlch a'r Llwyn. Da oedd gan bawb weled gwenau siriol y bobl hyn, ac arwydd eu bod yn gallu mwynhau awelon bryniau Ceredigon. Ar ol yr anerchiadau hyn, traddodwyd y ddwy siars eto yn y Llwyn gan yr un pregethwyr. Gan fod cymaint o amser wedi ei golli gyda'r anerchiadau, gorfu i'r Parchedigion hyn dynu pen byr ar eu pregethau. Os ceisir gan bregethwyr i draddodi pregethau neillduol ar achlysur neillduol, rhodder amser, a phob hwylusdod iddynt at y gwaith. Mae pregeth dda yn ddiamheu yn costio llafur, ac nid oes dim, feddyliwn i, yn gwangaloni pregethwr yn waeth na gweled y gynulleidfa yn anesmwyth am gael eu gollwng. Os cyfarfod pregethu, bydded felly, neu os cwrdd dweyd boed felly yr un modd, fel na byddo un yn tori ar draws y llall.

Yn yr hwyr, eto, yn y Llwyn, pregethwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, ac yn ei ddilyn gan y Parch. E. Ceredig Jones, Bradford. Cawsom y bregeth olaf (yn ngeiriau Mr. Davies, Alltplacca) "yn bregeth ar ei hyd," ac amlwg oedd fod pawb yn ei mwynhau. Dygodd hyn y cyfarfodydd i derfyniad, a'n hyder yw y bydd eu dylanwad yn adlewyrchu ar ddyfodol yr eglwysi.

UN O'R BWLCH.

—

SYLWADAU GAN MR. W. H. SHRUBSOLE, F.G.S.

Yn gydsyniol a chais a gefais i wneud ychydig sylwadau ar yr argraph a wnaed arnaf fel ymwelydd â'r Eglwysi Undodaidd Cymreig mewn cysylltiad â sefydliad y Parch. E. O. Jenkins, mae genyf bleser mawr i ddweyd gair am y rhan gerddorol o'r gwasanaeth yn Llwynrhydowen. Gwell i mi beidio cyfeirio at fanylion ereill am nad wyf yn alluog i ysgrifenu, a llai fyth i osod fy nhafod o gwmpas enwau perseiniol y gwahanol leoedd yr ymwelsom â hwynt. Ar yr un pryd yr wyf yn teimlo yn rhwymedig iawn am y croesaw calonog a roddwyd i'n parti, a dymunaf wneud fy niolchgar gydnabyddiaeth am y cyfryw.

Cyn dechreu y cyfarfod prydnawnol aeth y sibrwd ar led nad oedd yr organydd appwyntiedig wedi cyrhaedd y lle, a chreodd hyn ychydig betrusder i rai o'r gwyddfodolion. Er hyny, yr oedd un o'r ymwelwyr yn falch o'r cyfleusdra am y tro cyntaf yn ei fywyd i ffurfio barn gywir am adnoddau cerddorol cynulleidfa wledig Gymreig. Cyn gynted ag y dechreuwyd yr emyn cyntaf diflanodd pob anghrediniaeth am allu y bobl i ganu yn rhagorol heb gynorthwy offeryn. Yn wir, synwyd yr ymwelwyr gan lawnder gogoneddus y gân, yr hyn a brofai fod gan yr addolwyr leisiau gwych, a'u bod yn eu defnyddio a'u holl galon, tra yr amlygai melusder y gynghanedd fod y gwahanol leisiau yn cael eu cynrychioli yn feistrolgar. Yr oedd lleisiau llawn a threiddgar yr isalaw yn ffurfio sylfaen dda ar yr hon y gorphwysai y gynghanedd. Daethai alaw pob tôn allan yn odidog eglur, tra gwnai y lleisiau ereill wneud pob *chord* yn gyflawn. Pryd bynag y cenid emyn, nodweddid y gerddoriaeth gan yr un brwdfrydedd, difrifoldeb a diwylliant — elfenau nad ydynt bob amser yn bresenol yn nghaniadaeth y cysegr yn Lloegr.

Tua diwedd y cyfarfod, canodd y côr lluosog anthem, ac erbyn hyn yr oedd yr organydd wedi gwneud ei ymddangosiad, a chyfeiliodd ar yr offeryn newydd. Nid yw ond prin gyfiawnder i ddweyd fod y dernyn wedi cael ei ganu mewn arddull meistrolgar a swynol. Telid sylw

dyladwy i'r gwahanol raddau o bwyslais, ac yr oedd yn bleser mawr gweled y cantorion mor drwyadl dan reolaeth yr arweinydd. Yr oedd hefyd yn foddhad mawr i ni, ag sydd wedi bod yn ffafriol i'r nodiant newydd fel cyfrwng addysgawl, bron er pan ei cychwynwyd lawer o flynyddoedd yn ol, i weled copiau Tonic Sol-ffa yn llaw y cantorion. Dichon na fyddai yn bosibl i sicrhau effeithiau mor foddhaol oni bai fod y nodiant hwn wedi cael ei fabwysiadu yn y gymydogaeth.

Haedda yr arweinydd, y côr a'r gynulleidfa, ganmoliaeth uchel am eu diwylliant cerddorol, a dymuna yr ysgrifenydd eu llongyfarch ar eu cyrhaeddiadau yn y cyfeiriad hwn.

SYLWADAU GAN MISS NOTT-CUTT, LLUNDAIN.

Tra yr oedd parti Miss Tagart yn aros yn Aberystwyth, cawsant bleser heb ei fath dydd Llun, Awst 4ydd, pan dalodd deunaw-ar-hugain o honynt ymweliad â Chapel-y-Fadfa a Llwynrhydowen ar achlysur sefydliad y Parch. E. O. Jenkins fel gweinidog y ddwy eglwys. Ar ol taith o ddwy awr rhwng bryniau a dyffrynoedd hardd Ceredigion, cawsom daith ddyddorol iawn mewn cerbydau, yr hon a wnaed yn fwy felly gan eglurhad y Parch. E. Ceredig Jones, yr hwn oeddem mor ffodus a'i gael yn ein plith. Drwy gydol y daith dangosai i ni lawer o wrthrychau dyddorol a hardd gyda holl frwdfrydedd gwladgarwr aiddgar. Yna daeth ein syndod penaf pan gyrhaeddasom Bwlch-y-fadfa ac y cawsom roesawiad cynes gan Mrs. Jones, Gellifaharen a'i dwy ferch, ac Undodiaid ereill perthynol i'r ddwy gynulleidfa. Gwnai y llecyn glas o flaen y Capel ddarlun prydferth iawn. Yno yr oedd byrddau gorchuddedig a llïan o liw'r eira wrth y rhai y cyfranogai nifer luosog o drigolion y cylch o'r bwydydd a barotoid ar eu cyfer. Yn fuan gwnaed lle i ni, a rhaid cyfaddef i ni wneud perffaith gyfiawnder â'r trugareddau a roddid o'n blaen, gan ein bod wedi dechreu'r daith mor foreu. Ond rywfodd yr oedd yn anmhosibl gwneud un argraff weladwy ar y dysglau, oblegyd nid cynt yr haner gwagheid hwynt nag y llenwid hwynt fel pe b'ai rhyw ddewin wrth y gwaith. Nid oedd genym amser i chwilio i mewn i achos y rhyfeddbeth hwn oblegyd rhaid oedd i ni frysio i Llwynrhydowen, lle cynhelid cyfarfod y prydnawn. Yr oedd yr holl fyd fel pe byddai yn ymdeithio yn yr un cyfeiriad. Yr oedd yn olygfa ddymunol i'r cyfryw o honom oeddym wedi d'od o ardaloedd llai ffrwythlon i weled y gymydogaeth yn fyw gan Undodiaid selog. A gwir weddus yw fod Cristionogaeth yn ei ffurf syml fel Undodiaeth yn apelio at bobl hunanymddibynol a gweithgar fel trigolion y rhan hon o'r Sir. Yr oedd capel y Llwyn yn orlawn o wrandawyr, a methai llawer fyned i mewn. Yn ol ein safon Seisnig yr oedd y gwasanaeth yn hir—dwy awr a haner! Traddodwyd pump neu chwech o breethau, a llefara yn uchel am hyawdledd y gweinidogion, neu feallai yn fwy am ein teimlad o gysegredigrwydd y lle, a difrifoldeb yr achlysur, ein bod yn gallu gwrando yn ddiflino, am gymaint o amser, ar yr hyn a draddodwyd mewn iaith na ddeallem air o honi.

Pan ddaethom allan drachefn i'r awyr agored, cawsom fod y bwrdd tê wedi ei arlwyo ar ein cyfer. Yr oedd ein cyfeillion yn ofalus i weled ein parti yn cael eu diwallu yn gyntaf oblegid fod taith hirfaith o'n blaen. Wrth fyned yn ol i'r orsaf ar derfyn y dydd dros fryn a dôl, ac ar hyd glanau nentydd grisialaidd, yr oedd y golygfeydd yn hardd dros ben. Rhy frysiog o lawer y teithiai y cerbydau, oblegid nid oeddym wedi cymeryd i ystyriaeth y ffaith nad yw y trên ar y llinell leol nemawr byth yn cychwyn hyd oddeutu haner awr ar ol yr amser appwyntiedig. Yr oedd yn ddrwg genym ein bod wedi ymadael a'n cyfeillion newyddion heb

ddweyd ffarwel mewn modd mwy gwresog, ac heb ddatgan yn fwy cyflawn ein dymuniadau ar i lwyddiant ddilyn llafur y gweinidog ieuanc a'i bobl yn y gwaith da y maent wedi ymgymeryd ag ef dan amgylchiadau mor addawol. Yn nghof pawb a gawsant y fraint o gyfranogi o bleser y daith ddymunol hon, fe erys yn un o ddyddiau dedwyddaf ein gwyliau yr haf hwn.

CONGL YR AWEN.

Y mae lliaws o feirdd yn disgwyl eu tro i'r Gongl. Pwyll ac amynedd, feib y gân, a cha pawb chwareu teg.

"Ioan Wyn."—Yr wyf wedi gadael allan ddau englyn oeddynt, yn fy marn i, yn is-raddol i'r lleill.

S.

ER COF ANWYL

Ann Gwenllian Thomas, Gellinudd, Cilybebyll, Pontardawe, yr hon a fu farw Ebrill y 7fed, 1902. Heddwch i'w llwch.

Anwyl Gwen, addien weinyddes—fuost
Drwy'th fywyd dirodres ;
Ar dy ol mae dwyfol dês
Daioni yn dy hanes.

Ei hen aelwyd a wyla—ar ei hol,
Er ei bod yn ngwynfa ;
Pob bore a hwyr pawb wira
Mai dedwydd oedd ei dydd da.

Ei blagur gwyrdd a blygwyd,—a'i chorsen
Iach îr-syth ysigwyd ;
Ond ha ! Gwen eto gwyd
I fyw eilwaith ar Nef aelwyd.

Chwerw loes a roes i rai—ar ei hol,
Oer yw'r sedd a lanwai ;
O ! gystudd, y bywyd gostiai,
I ymyl dŵr i'w hymlid ai.

Er rhoi Gwen yn y gweryd,—i orwedd
Ac aros am enyd,
Uwch heuliau ca ddychwelyd
I'r wyl fawr yn yr ail fyd.

IOAN WYN

PRIODAS.

GORPHENAF 13eg, boreu Sul, yn Gellionen, unwyd mewn glan briodas Mr. David E. Lewis, Craig, Trebanos, a Miss E. Anne Williams, Craig-glyn-meirch.

MARWOFION.

MEHEFIN 5fed, John Hunton Smith, brawd - yn - nghyfraith y diweddar Dr. Lloyd, Caerfyrddin, yn 83 oed. Llosgwyd y corff yn yr Anfield Crematorium, Lerpwl.

MEHEFIN 20fed, Evan Jones, Tanlan, Cribyn, yn 58 oed, gan adael gweddw a naw o blant, yn nghyd ag un brawd, mewn galar dwys ar ei ol. Er mai mewn amgylchiadau tlawd y dygwyd ef i fyny, ac na chafodd mewn canlyniad ond ychydig fanteision addysg pan yn ieuanc, eto, trwy ymdrech a gofal i wneud defnydd o bob cyfleustra ddelai i'w ran, llwyddodd i enill gwybodaeth helaeth, gywir a defnyddiol mewn llawer o bynciau, yn enwedig felly gwybodaeth Feiblaidd ; ac nid yn aml y cwrddid â neb, yn enwedig o'i safle a'i fanteision ef, yn meddu barn mor addfed ar wahanol bynciau y dydd. Mewn cysylltiad a'r eglwys yn Cribyn gwasanaethodd fel diacon a thrysorydd am dros ugain mlynedd, ac fel athraw yn yr Ysgol Sul am gyfnod mwy. Ac yn mhob cangen o weithgarwch yr eglwys uchod teimlir colled mawr ar ei ol, canys gwnai ei ran yn mhob un o honynt. Nid oedd ei le byth yn wâg, a chyffroai ereill i ffyddlondeb trwy ei sêl a'i weithgarwch. Mae un mab iddo, sef Mr. Islan Jones, B.A., ar hyn o bryd yn Ngholeg Manchester, Rhydychen, yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth. Cydymdeimlir yn fawr a'r teulu yn y trallod dwys y taflwyd hwy iddo mor ddirybudd. Daearwyd ei weddillion yn mynwent y Cribyn dydd Mawrth canlynol, pryd y daeth torf luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. R. C. Jones a J. Davies.

MEHEFIN 21ain, Sarah Thomas, Brynyreglwys, gynt o Cribyn, yn 80 oed. Gweinyddwyd arni yn dyner yn ei chhystudd o dros ddwy flynedd gan ei nith, Mrs. Jones, o'r lle uchod. Claddwyd yn Ystrad y Mercher canlynol. Pregethwyd yn y ty gan weinidog y Cribyn, ac wrth y drws gan y Parch J. Davies.

MEHEFIN yr 22ain, yn 5 oed, Elizabeth, merch William a Mary Jones, Mardy, gynt o Trebanos. Claddwyd hithau y Mercher dilynol, a'r Parch. T. J. Jenkins yn gweinyddu. Ffarwel, bellach, eneth anwyl.

MEHEFIN 22ain, yn 43 oed, Bessie Jones, gwraig D. Eiddil Jones, Cefncoed, y cerddor adnabyddus, ac ail ferch y diweddar Barch. O. Evans. Cafodd gystudd hir a phoenus, ac er pob gofal a thynerwch, gostyngwyd ei nerth ar y ffordd a byrhawyd ei dyddiau. Fel ei gwr, meddai radd helaeth o'r dalent gerddorol, a bu yn ddiamheu, gyda'i medrusrwydd celfydd ar y Berdoneg, yn gymhorth mawr iddo yn ei yrfa fel cerddor. Mae Mr. Jones wedi colli gwraig ofalus a darbodus, ffyddlon yn holl ddyled-

swyddau bywyd ; ac fel mae'n rhyfedd, collodd ei fam yr un wythnos, ac mae cydymdeimlad canoedd o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn myned allan atto yn ei unigedd a'i ddygn drallod. Claddwyd y Mercher canlynol yn Cemetery y Cefn, y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdâr, ac E. Davies, B.A., Cefncoed, yn gwasanaethu.

MEHEFIN 23ain, yn 17, Glannant Street, Aberdâr, Harriet, gwraig Charles Adams, garddwr parchus Mr. Roderick, yr architect. Yr oedd Mrs. Adams yn ferch i William Gething, ac yn or-wyres i'r Parch. Thomas Evans (1764-1833). Heb law ei phriod y mae tri o rai bach ar ei hol. Yr oedd yn aelod yn Highland Place. Ddydd yr angladd gwasanaethodd R. J. J., yn absenoldeb y Parch. D. J. Williams, Merthyr, yr hwn oedd wedi ei benodi, ond a orfuwyd myned ffordd arall.

MEHEFIN 25ain, ar ddydd angladd ei merch-yn-nghyfraith a goffeir uchod, Alice, gweddw John Thomas Jones (Eiddil Cynon), 35, Harriet Street, Aberdar, yn 79 oed. Y Sadwrn canlynol daearwyd ei chorff yn ymyl eiddo ei phriod yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, lle'r oedd ar adeg ei marwolaeth yn un o'r aelodau hynaf a pharchusaf. Gadawodd bump o blant—tri mab a dwy ferch—mewn galar ; o'r rhai hyn y mae dau yn parhau yn aelodau ffyddlawn yn eglwys eu tad a'u mam. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans ac R. J. J.

MEHEFIN 27ain, ar ol hir nychdod, yn 32 oed, Thomas Thomas, Blaengarw, Morganwg, gan adael gweddw ac un plentyn i alaru ar ei ol. Mab ydoedd i'r diweddar Thomas a Martha, Ffinnant Arms. Claddwyd yn mynwent eglwys Llanfairclydogau, gyda'r gwasanaeth arferol, yn nghydag anerchiad byr a gweddi ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

GORPHENAF 4ydd, John Griffiths, Dowlais Street, Aberdar, yn 47 oed, gan adael gweddw a thŷaid o blant mewn galar. Ei wraig gyntaf, a gollodd yn 1893, a mam y plant, oedd Catherine, merch William Davies (Bili o'r Bedwlwyn). Y mae'r ail wraig, sydd yn weddw yn bresenol, wedi profi ei hunan yn ail fam, ac yn garedig iawn i'r amddifaid. Parhaed yr undeb yn hir ac yn anwyl cydrhyngddynt. Claddwyd yn y Cemetery, a gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans ac R. J. J.

GORPHENAF 8fed, yn dair wythnos oed, baban bach Llewellyn a Sarah Thomas, Aberafon, gynt o Trebanos. Claddwyd yn Gellionen Gorphenaf 11eg, y Parch. T. J. Jenkins yn gweinyddu.

GORPHENAF y 12fed, wedi cystudd hir, yn 61 oed, Elizabeth, anwyl briod Evan Jones, Ty'ncae, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Cymorth a gaffo'r priod a'r plant i alaru'n weddus ar ei hol.

AWST 3, yn 67 oed, Mr. Benjamin Evans, Ponttwelly, Llandyssul, gynt o Tancoed, plwyf Llangeler. Hanai yr ymadawedig o un o deuluoedd parchusaf y gymydogaeth, ac yr oedd ei fam yn wyres i'r adnabyddus Ddafis o Gastell-hywel. Claddwyd ei weddillion yn mynwent newydd Llwynrhydowen y dydd Iau canlynol, pryd y gwasanaethodd y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd weddw a dwy ferch ieuanc i alaru ar ei ol.

Dymunir cydnabod derbyniad y tanysgrifiadau canlynol tuag at y Gymdeithas Undodaidd Gymreig :—Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Chesterfield, 5s. ; Parch. E. Ceredig Jones, Bradford, 10s. 6c. ; Mrs. Marles Thomas, Aberystwyth, 10s. ; Wick, 10s. ; Nottage, 7s. 6c.

HANES YR EGLWYSI.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG. — CYFARFOD Y PWYLLGOR, GOR. 10, 1902.—Cymerwyd y gadair gan y Llywydd yn hen Gapel Gellionen, am 9 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod o'r blaen, a phasiwyd hwy. Pasiwyd pleidlais o gydymdeimlad a Mr. E. J. Williams, Gwarnant, Cwrtnewydd, un o'n myfyrwyr yn Rhydychen, yn ei afiechyd, a dymuniad gwresog am ei adferiad buan, ar gynygiad y Parch. J. Davies. Derbyniwyd awgrym y Trysorydd fod y *Balance Sheet* yn y dyfodol er mwyn cael ei harchwilio yn briodol, i gael ei gosod gerbron yn nghyfarfod yr Hydref yn lle cyfarfod yr Haf. Darllenwyd y *Balance Sheet* gan y Llywydd yn absenoldeb y Trysorydd. Yr oedd *Balance* y Drysorfa Gyffredinol am eleni yn £47 7s. 6c., *Balance* Trysorfa YR YMOFYNYDD yn £74 5s. 7c., yn cynhwys wrth gwrs, y swm o £43 a gasglwyd fel trysorfa i'w gychwyn ar ei yrfa newydd. Penderfynwyd fod y swm o £5 a bleidleisiwyd y llynedd o'r Drysorfa Gyffredinol i helpu'r YMOFYNYDD i gael eu trosglwyddo yn ol, gan nad oedd eu heisiau. Darllenodd y Llywydd ei adroddiad blynyddol fel ysgrifenydd. Ceir ef yn argraffedig yn y rhifyn hwn. Derbyniwyd y *Balance Sheet* a'r adroddiad, a chyflwynwyd diolchgarwch y Gymdeithas i'r Trysorydd a'r Ysgrifenydd am eu gwasanaeth. Penderfynwyd ei bod yn amod derbyniad unrhyw *grant* oddiwrth y Gymdeithas, fod y gynulleidfa sydd yn derbyn y *grant* yn gwneud casgliad blynyddol at y Gymdeithas. Etholwyd y swyddogion am y flwyddyn nesaf—Yr Is-lywydd, y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, i fod yn Llywydd, a'r Parch. D. Evans, Cribyn, i fod yn Is-lywydd, a'r swyddogion ereill fel o'r blaen. Bydd y cyfarfod blynyddol nesaf yn Llanbedr ar adeg agoriad y Capel newydd, a'r cyfarfod chwarterol nesaf yn yr Hydref yn Cwrtnewydd—y Parch. David Rees, Rhondda, i bregethu. Pleidleisiwyd y *grants* canlynol :—Sychbant, £5 ; Rhondda Valley, £5 ; Nottais, £5 ; Wig, £3 ; Cwmbach, £3 ; Gellionen a Threbanos, £3 ; Dowlais, £3 ; Treuliau teithiau y gweinidogion i gyfarfodydd y Gymdeithas, £6 ; *Postal Mission*, £5 ; at argraffu *Tracts*, £5 ; ar gyfer gwasanaethau neillduol yn Nghaeronen, £2 ; ar gyfer yr un yn Alltyplacca, £2 ; a £2 i helpu Mr. J. D. Jones, Ynysybwl (myfyriwr ar gyfer y weinidogaeth) i barotoi i fyn'd i'r Coleg. Pleidleisiwyd y swm o £14 i Olygwyr YR YMOFYNYDD, a £2 yr un i'r Parchn. Tudor Jones a Gwilym Evans am eu cyfraniadau llenyddol o'r cychwyn. Ceisiwyd gan y Trysorydd i osod £40 o drysorfa'r YMOFYNYDD ar wahan yn y Banc fel *deposit*, yn y gobaith na fydd dim o'u heisiau yn fuan beth bynag.

W. JAMES, *Ysg.*

ABERDAR.—Derbyniasom adroddiad cyflawn o eglwys yr Hen-Dy-Cwrdd am y flwyddyn ddiweddaf. Hwn ydyw yr adroddiad cyntaf, yn ystod y cant a haner o'i hanes, a dymunem longyfarch yr eglwys am y cam pwysig maent wedi roddi. Gall pob aelod gael cydnabyddiaeth o'i gyfraniadau a chrynodeb o'r holl gyfrifon. Rhifa yr aelodau ar ddechreu y flwyddyn fel ar ei diwedd 90, a derbyniwyd y cyfanswm o £133 7s. 8c., ac y mae y gweddill mewn llaw ar ddechreu y flwyddyn yn £44 13s. Dymunem weled y gweddill o'n heglwysi Cymreig yn gwneud adroddiad cyffelyb, am y credwn y bydd yn sicr o greu dyddordeb a bywyd newydd yn yr achos da.

Dydd Gwener, Awst 1af, clywodd Mr. John Davies, Cwmdar, Aberdar, ei fod wedi llwyddo i basio ei arhol-

iad terfynol i fod yn Arolygydd Iechydol (*Sanitary Inspector*). Yr oedd dros 70 yn treio, pasiodd 35, Mr. Davies yr ieuengaf o honynt. Llwyddodd yn wyneb yr anfantais ei fod yn gorfod dilyn ei orchwyl gwaith bob dydd. "Uwchach yr êl."

DYMUNA Ysgolion Sul Pantdefaid a'r Graig, Llandyssul, gydnabod gyda diolchgarwch dderbyniad sypyn o 100 copi yn rhad o emynau a thonau at wasanaeth yr Ysgol Sul, oddiwrth Mr. D. Eiddil Jones. Gwna Mr. Jones yr un peth ag ysgolion eraill ond iddynt anfon ato a thalu y cludiad yn unig.

BYDD yn achos llawenydd i'w luaws gyfeillion yn Nghymru i glywed fod Pwyllgor yr Upper Chapel, Sheffield, yn gwerthfawrogi gwasanaeth y Parch. J. E. Jenkins gymaint fel y penderfynasant roddi iddo anrheg o £25 yn ychwanegol at y gyflog addawedig. Yn mlaen yr elot, gyfaill.

COLOFN Y GOLYGWYR.

Gadawyd allan o'r rhifyn hwn o ddiffyg gofod :—llith J.T.T. ; Sylwadau Miss Tagart ar ei hymweliad a'r Bwlch a'r Llwyn ; Y Beibl : yr Hen a'r newydd ; Penillion coffadwriaethol Mrs. Jenkins, Aeron Villa ; Dysgu'r Bobl, gan Dewi Hiraddug. Cânt ymddangos yn ein nesaf.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

LLYWYDD—PARCH. T. LLOYD JONES, LERPWL.
IS-LYWYDD—PARCH. D. EVANS, CRIBYN.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynhelir yn Cwrtnewydd, Ceredigion, Mercher ac Iau, Hydref 1af a'r 2il. Cyfarfod pregethu nos Fercher am 6.30. Dydd Iau am 9, y Pwyllgor Cyffredinol ; am 9.45, Pwyllgor yr Ysgol Sul ; am 10.30, traddodir y bregeth gan y Parch. D. Rees, Rhondda ; cyfarfodydd pregethu am 2 a 6.

Casgliadau yn yr holl oedfaon.

Bydd cerbydau yn cyfarfod y trên prydnawn dydd Mercher yn Llanybyther. Bydd yn bleser gan weinidog a chynulleidfa Capelybryn i roddi croesaw cynhes i bawb.

W. JAMES, Ysg.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.